

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2024	0300 200 6565
Amser: 14.00	Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Sesiwn dystiolaeth: Panel 1 – P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru (14.00 – 14.45) (Tudalennau 1 – 7)

Dr Sue Patterson, Llywydd Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS)

Dr Julia Mewes, The Mewes Vets

3 Deisebau newydd (14.45)

3.1 P-06-1411 Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith.

(Tudalennau 8 – 15)

3.2 P-06-1426 Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pwl

(Tudalennau 16 – 19)

3.3 P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol

(Tudalennau 20 – 22)

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- 4.1 P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru
(Tudalennau 23 – 26)
- 4.2 P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
(Tudalennau 27 – 32)
- 4.3 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent
(Tudalennau 33 – 40)

5 Sesiwn dystiolaeth: Panel 2 – Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru (15.00 – 15.45)

Caroline Allen, Prif Swyddog Milfeddygol RSPCA Cymru

Carlie Power, Cats Matter

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (15.45)

7

7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

8 Trafod deiseb y flwyddyn

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith.

Y Pwyllgor Deisebau | Mai 2024
Petitions Committee | May 2024

Cyfeirnod: SR24/8458/3

Rhif y ddeiseb: P-06-1411

Teitl y ddeiseb: Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r Senedd yn cynnig 96 Aelod etholedig, yn hytrach na'r 60 presennol. Mae Llafur a Phlaid Cymru eisiau gwario hyd at £120 miliwn ar greu mwy o wleidyddion diangen, yn lle gwario arian i drwsio:

Ein GIG

Ein hysgolion

Ein ffyrdd

A ydych am dalu rhagor o drethi yng Nghymru i ariannu'r biwrocratiaid newydd hyn?



1. Y cefndir

Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar 17 Medi 2023.

Mae'r Bil yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Mai 2022.

Mae'r newidiadau a gynigir gan y Bil yn cynnwys:

- Cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o 60 i 96;
- Cyflwyno system etholiadol gyfrannol rhestr gaeedig i ethol Aelodau;
- Dychwelyd i'r Senedd yn cael ei hethol am dymhorau o bedair blynedd;
- Galluogi'r Senedd i ethol ail Ddirprwy Lywydd;
- Cynyddu uchafswm Gweinidogion Cymru o 12 i 17 (gyda'r potensial i'w cynyddu i 19);
- Rhoi darpariaethau ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau o ffiniau etholaethol y Senedd; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd, ac Aelodau ohoni, gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru.

Pleidleisiodd y Senedd o 43 i 16 i dderbyn y Bil yn y trafodion Cyfnod 4 ar 8 Mai 2024.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn amcangyfrif mai cyfanswm cost net gweithredu'r Bil fydd £99,683,800 i £119,631,700 dros y cyfnod arfarnu wyth mlynedd rhwng 2024-25 a 2031-32. Mae'n ychwanegu na fu'n bosibl rhoi gwerth ariannol ar y buddion a fydd yn deillio o'r Bil, ond y bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i:

- dwyn y Weithrediaeth i gyfrif;
- craffu'n fanylach ar bolisi a deddfwriaeth; ac
- ymgysylltu â'r etholwyr.

Wedi hynny, mae Comisiwn y Senedd wedi darparu amcangyfrifon cost diwygiedig yn seiliedig ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau ar gyfer 2023-24 yn hytrach na Phenderfyniad 2022-23 a ddefnyddir at ddibenion memorandwm esboniadol y Bil. Byddai hyn yn ychwanegu rhwng £4,055,500 a £4,198,800 at gost amcangyfrifedig y Bil dros y cyfnod arfarnu wyth mlynedd.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mae wedi dweud fod y Bill yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i bobl Cymru "gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i foderneiddio'r Senedd, gan adlewyrchu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain."

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn nodi na ragwelir y bydd arbedion cost cyffredinol o ganlyniad i'r Bil, ond mae'n tynnu sylw at nifer o fanteision sy'n deillio o'r Bil, nad oes gwerth ariannol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif
- Bydd y system etholiadol yn "cael gwared ar y dryswch...i etholwyr" drwy gael Aelodau wedi'u hethol drwy un system yn hytrach na dwy, a bydd yn darparu pleidlais fwy cyfrannol na'r system bresennol
- Byddai Aelodau yn fwy hygyrch i'r bobl y maent yn eu cynrychioli oherwydd y gallu cynyddol i ymgysylltu â'r etholwyr, cymunedau a grwpiau rhanddeiliaid
- Bydd Aelodau'n "ddarostyngedig i gyfreithiau'r Senedd" o ganlyniad i'r gofyniad preswyl ac y bydd mwy o "adnewyddu democrataidd" o ganlyniad i ethol y Senedd bob pedair blynedd yn hytrach na phump.

Mae'r Asesiad Effaith yn cyfeirio at dystiolaeth a roddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ynghylch meintoli maint yr enillion sydd eu hangen er mwyn gwneud iawn am y costau ychwanegol posibl yn sgil cael Senedd fwy. Gan gymhwyso ei gyfrifiadau i'r costau a nodir yn yr Asesiad, mae'n amcangyfrif y gallai gwelliant mewn gwerth neu arbedion ariannol (yn deillio o gapasiti gwell ar gyfer craffu) o lai na 0.1 y cant o Gronfa Cyfunol Cymru wrthbwysu'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Sefydlwyd y Pwyllgor Biliau Diwygio ar 12 Gorffennaf 2023 ac arweiniodd ar waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil.

Yn unol â'r broses ddeddfwriaethol safonol, bu'r Pwyllgor Cyllid (yn canolbwyntio ar oblygiadau ariannol y Bil) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (yn ystyried ansawdd a chyfreithlondeb y ddeddfwriaeth) hefyd yn craffu ar y Bil.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Biliau Diwygio ei adroddiad cyfnod 1 ym mis Ionawr 2024, gyda 50 o argymhellion wedi'u gwneud.

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor sylw at y ffaith fod llawer o'r bobl a ymatebodd i'w ymgynghoriad ar sail bersonol yn pryderu am y costau, gan gyfeirio at yr hinsawdd economaidd heriol a phwysau costau byw. Awgrymodd rhai y dylid blaenoriaethau gwariant arall, gan gynnwys iechyd, addysg a thrafnidiaeth.

Archwiliodd y Pwyllgor a yw costau'r Bil yn gymesur â'r manteision y disgwylir fydd yn deillio o gynyddu capasiti'r Senedd. Dywedodd yr Athro Alan Renwick, cyn-Aelod o'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, wrth y Pwyllgor:

"[...] when we're thinking about the merits of a larger Senedd, it seems to me, in the grand scheme of things, these are fairly small sums of money, and the benefits of a well-functioning legislature are very, very considerable. So, it's absolutely right to be careful about the costs, but I'm just wary of placing too much emphasis on those when we're looking at the Bill as a whole"

Nododd y Pwyllgor yr heriau sy'n gysylltiedig â meintioli'r manteision a allai ddeillio o "well effeithiolrwydd y Senedd" o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr Aelodau a'i bod yn anodd gwerthuso a meintioli effaith gwaith craffu.

Roedd yn datgan pe baem am weld dealltwriaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid o rôl y Senedd yn gwell, ynghyd â'r rhesymeg dros y diwygiadau yn y Bil, rhaid i'r Senedd, ei phwyllgorau a'i Haelodau o'r Senedd barhau i ganfod ffyrdd o ddeall, mesur a chyfleu effaith eu gwaith craffu a chynrychioli.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1411
Ein cyf/Our ref CG/05004/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

30 Ebrill 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-06-1411 “Rwy’n gwrthwynebu “Bil Diwygio’r Senedd” Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith”.

Mae achos clir a chryf dros ddiwygio'r Senedd wedi'i wneud droeon drwy gyfres o adroddiadau gan gomisiynau a phaneli arbenigol. Yn 2004, daeth Comisiwn Richard ([Adroddiad y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)) i'r casgliad nad oedd cadw'r *status quo* yn opsiwn ac argymhellwyd cynyddu nifer yr Aelodau newydd a newid y system etholiadol.

Yn 2017, gwnaeth y [Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#) (Adroddiad McAllister) argymhellion ynghylch maint y Senedd a sut y dylai Aelodau gael eu hethol. Cafodd yr argymhellion eu hystyried yn ddiweddarach gan y [Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), a gyflwynodd adroddiad ym mis Medi 2020, gan ddod i'r casgliad bod tystiolaeth glir a chadarn bod y Senedd yn rhy fach. Amlinellodd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn “mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol”.

Yn ystod etholiadau'r Senedd yn 2021, roedd ymrwymiad i ddiwygio'r Senedd yn rhan amlwg o fanifestos Llafur Cymru, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Pleidleisiodd y Senedd o blaid bwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2022 sef [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#). Ymhlith ei 31 o argymhellion, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai fod gan y Senedd 96 o Aelodau.

Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn cydnabod bod y cynnig ar gyfer 96 o aelodau yn mynd y tu hwnt i'r ystod a argymhellwyd yn wreiddiol gan y Panel Arbenigol. Yn ei adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor amlinellu ei resymeg dros gredu bod hynny yn addasiad cymesur, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o newidiadau yn nhirwedd wleidyddol Cymru ers adroddiad y Panel Arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 30
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- mwy o gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd, sy'n deillio'n bennaf o ymadawiad y DU â'r UE;
- cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y Senedd o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig COVID-19;
- newidiadau mewn ffyrdd o weithio, a ysgogwyd gan y pandemig COVID-19, a allai o bosibl leihau rhai o'r costau ariannol sy'n gysylltiedig â chynyddu nifer Aelodau o'r Senedd; a
- chadarnhad y bydd nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn gostwng o 40 i 32.

Y Senedd yw'r lleiaf o'r holl ddeddfwrfeydd datganoledig yn y DU ac mae hi'n parhau i fod yr un maint â phan gafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei sefydlu ym 1999. Bryd hynny, nid oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bwerau deddfu sylfaenol ac nid oedd wedi'i wahanu'n ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae rolau a chyfrifoldebau'r Senedd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r Senedd bellach yn gwneud cyfreithiau, yn gosod trethi ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn rhai o'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl. Mae'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd pob unigolyn yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod y Senedd o faint priodol er mwyn ei galluogi i gyflawni ei swyddogaethau craffu a dwyn y Llywodraeth i gyfrif yn effeithiol.

Mewn unrhyw senedd, pan fo Aelod yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, mae'n rhaid iddo rannu ei amser i baratoi ar gyfer cynnal gwaith craffu. Mae unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan yr Aelod (fel bod yn Arweinydd Plaid, yn Rheolwr Busnes, ac ati) yn effeithio ymhellach ar ei gapasiti personol. Mae'r galw a'r cyfrifoldebau hyn sy'n gwrthdaro yn effeithio ar allu'r Aelod i arbenigo mewn maes craffu ar bolisi a deddfwriaeth, ac i feithrin rhagor o arbenigedd a dealltwriaeth wrth ddwyn y weithrediaeth i gyfrif. Er mai prin yw'r achosion pan fo Aelodau mewn seneddau eraill yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, mae hyn, ar hyn o bryd, yn arfer gyffredin yn y Senedd.

Mae cost ynghlwm wrth fuddsoddi yn ein democratiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys Comisiwn y Senedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) i lunio amcangyfrifon manwl o gostau sy'n amlinellu goblygiadau ariannol disgwylledig y deddfwriaeth hon dros gyfnod o 8 mlynedd, a hynny o'r dyddiad y rhagwelir y bydd y Bil hwn yn cael ei basio.

Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau'r gwerth gorau posibl o arian cyhoeddus. Mae gan Gymru gyllideb flynyddol o dros £24 biliwn (Cronfa Gyfunol Cymru). Bydd gwelliant mewn gwerth sy'n llai na 0.1% o'r gyllideb hon, yn sgil y ffaith bod gan bwyllgorau'r Senedd y gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol, yn gwrthbwysu costau'r buddsoddiad hwn.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

P-06-1411 I oppose the Welsh Government Senedd Reform Bill becoming law - Correspondence from the petitioner to the Committee, 10 May 2024

Dear Mr Sargeant,

As you are aware, I submitted the above petition on the 18th September 2023. I am astonished to see the Senedd has completed its four stages of deciding on the Reform Bill, yet my petition is not being presented before the committee until the 20th May.

I have read through Mick Antoniw AS/MS, Counsell General letter of the 30th April addressed to you and the various reports/documents published. I understand the process and rationale for increasing Senedd members, however I am frustrated to see that the Welsh Government has chosen to proceed on a small sample of respondents of 1,830* taken in 2018 in contrast to the 21,037 petitioners that signed my petition objecting to the increase in Senedd members between September 2023 and March 2024.

It seems that as with many other governments, “token” canvassing of a small selection of respondents appears to be a simple “tick box exercise,” to achieve a result your government desired.

Sadly, I feel completely deflated and ask myself whether any form of “majority government” listens to its electorate.

I do, at least expect an explanation from you as to how Petitions are ignored prior to debate and, in this instance, Royal Assent approval. We saw this with the controversial 20-mph petition, the outcome of which is that some of the 20-mph restrictions are likely to be relaxed.

In my opinion, the increase of Senedd members, just seems the current Welsh government has seen this as a “done deal,” providing Plaid Cymru supported them and went through the legislative motions to achieve its aim, despite in one of the reports they say *“While we cannot afford to lose another five years before the capacity of the Senedd is addressed, we continue to believe that the development of legislative proposals, and the Senedd’s decisions on them, would usefully be informed by deliberative engagement with the public on the detail of the reform proposals.”*

Unless I am mistaken, the opposition canvassed for a public referendum to vote on the changes proposed which was ignored, despite Mick Antoniw AS/MS, Counsell General being aware of my petition.

You will see from the nature of my comments, it is one of “observation” rather than justification of my petition, as I now see it as a pointless exercise.

Although I am against an increase in Senedd members due to the lack of funding for NHS, Schools, and roads, I hope beyond 2026 there may be a fairer division of politicians, within the Senedd, as for far too long there are too many representatives, failing to listen to the electorate or compromise with the opposition members.

Yours faithfully

Rees James

10th May 2024

*The following is the reference to 1,830 respondents noted above

Reference Senedd Reform: “the next steps 20 September 2020” Page 23 section 18

18. The Senedd Commission consulted on the number of Members the Senedd should have in its 2018 Creating a Parliament for Wales consultation, which found that: “Of the 1,830 responses to questions on the number of Members the Assembly needs, 56 per cent (1,030) of responses were in favour of more Assembly Members, 39 per cent (710) were opposed and five per cent (90) were unsure or did not express a preference”. Members of the Senedd subsequently debated the capacity of the Senedd in Plenary on 10 July 2019, and resolved that an increase in the number of Members was needed.

P-06-1426 Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pŵl

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Mai 2024
Petitions Committee | 20 May 2024

Cyfeirnod: SR24/8621-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1426

Teitl y ddeiseb: Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pŵl

Geiriad y ddeiseb: Bu nifer o ddamweiniau eisoes wrth y cylchfan hwn (A472/A4042). Gyda'r cynnydd mewn traffig i'r siop Aldi newydd, bydd yn fater o amser cyn y bydd marwolaethau.

1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys yr A4042. Asiant Cefnffyrdd De Cymru sy'n gyfrifol am weithredu a chynnal a chadw'r ffordd o ddydd i ddydd.

Mae CrashMapUK sy'n llunio map rhyngweithiol o ddata gwrthdrawiadau traffig a gofnodwyd gan yr heddlu, yn dangos 20 mân-ddigwyddiad a 3 digwyddiad



difrifol ar y gylchfan dan sylw neu wrth ddynesu ati rhwng 2018 a 2022. Mae canllawiau ar y diffiniadau a ddefnyddir i gategoreiddio digwyddiadau'n cael eu cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth. Dylid nodi bod y data ond yn cynnwys gwrthdrawiadau a arweiniodd at anaf personol ac a gafodd eu hadrodd i'r heddlu o fewn 30 diwrnod i'r ddamwain.

Mae'r gylchfan y cyfeiriodd y deisebydd ati wedi'i chynnwys yn y cynnig gan gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru, A4042 Coridor y De, Pont-y-pŵl i'r M4.

Cynllun A4042 Coridor y De, Pont-y-pŵl i'r M4

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael am y cynllun yn cyfeirio'n benodol at osod goleuadau traffig ar y gylchfan hon. Mae adroddiad y panel adolygu ffyrdd ar y cynllun (a drafodir ymhellach isod) yn dweud bod y prif elfennau'n cynnwys adeiladu llwybr beicio 2.5km, addasiadau i bum cylchfan (heb gynnwys yr un y cyfeiriodd y deisebydd ati) ynghyd â "mesurau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ar raddfa fach". Byddai terfyn cyflymder 50mya dros dro hefyd yn cael ei wneud yn barhaol wrth ddynesu at gylchfannau.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod gan y rhan hon o'r ffordd gyfradd gwrthdrawiadau uchel, cyfleoedd cyfyngedig i gerdded neu feicio'n ddiogel a darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig. Mae'r cynllun wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.

Mae asesiad WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) Cam Un ar y cynllun wedi'i gwblhau, yn ogystal ag asesiad cam dau interim. Mae bellach yn destun yr asesiad cam dau olaf yn sgil adolygiad ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Yr adolygiad ffyrdd

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Lee Waters AS, y cyn-Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y byddai panel adolygu ffyrdd yn cael ei sefydlu i adolygu buddsoddiadau ffyrdd arfaethedig Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y cyn-Ddirprwy Weinidog y byddai pob cynllun ffordd newydd yn cael ei atal pan oedd y cynlluniau presennol yn cael eu hadolygu.

Cyhoeddodd y panel ei adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023. Wrth ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi ffyrdd newydd sy'n gosod pedwar prawf adeiladu ffyrdd.

Ar Gynllun A4042 Coridor y De, canfu'r panel fod yr achos dros newid "wedi'i gyflwyno'n rhannol" ac argymhellodd y gallai Llywodraeth Cymru barhau i

gefnogi'r cynllun ond y dylid ei adolygu yn unol â'r polisi newydd. Ar y gylchfan benodol dan sylw, mae dadansoddiad o ddata gwrthdrawiadau sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y panel "yn awgrymu y gallai problem fod gyda gwrthdrawiadau" yma.

Fel yr amlinellwyd, mae Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad WelTAG cam 2 terfynol ar y cynllun i gysoni'r prosiect â'i phroffion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Mae'n dweud y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yng "[n]gwanwyn 2024".

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd ar 26 Ebrill, mae Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, yn amlinellu gwelliannau a wnaed eisoes ar y gylchfan dan sylw, gan gynnwys croesfan i gerddwyr a'r terfyn cyflymder 50mya.

Mae'n cyfeirio at gynnwys y cynllun yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ac mae'n dweud y "bydd y cynllun yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chynlluniau eraill tebyg ledled Cymru a bydd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael".

3. Camau gan Senedd Cymru

Yn 2019 cyflwynodd Lynne Neagle AS gwestiwn ysgrifenedig ar nifer y damweiniau ar y gylchfan y cyfeiriodd y deisebydd ati. Cyfeiriodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd at yr asesiad WelTAG cam un a gynhaliwyd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1426
Ein cyf/Our ref KSNWT/05039/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

26 Ebrill 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth ynghylch Deiseb P-06-1426 Gosod goleuadau traffig yng nghylchfan McDonald's Pont-y-pŵl.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd diogelwch ar y ffyrdd o ddifrif. Cafodd cydsyniad ar gyfer y siop Aldi yn y lleoliad hwn ei roi gan yr awdurdod cynllunio lleol. Fel rhan o'r datblygiad hwn cafodd sgrin welededd ei chyflwyno ar ochr ogleddol yr A4042 tuag at Gylchfan Pont-y-pŵl er mwyn cyfyngu ar welededd gormodol a allai achosi cyflymder uchel wrth agosáu at y gylchfan a hefyd amledd a chanlyniadau gwrthdrawiadau.

Mae cynllun coridor WeITAG ar gyfer yr A4042 hefyd wedi arwain at welliannau i'r gylchfan hon, gan gynnwys ailfarcio lonydd, croesfan a reolir i gerddwyr a therfyn cyflymder o 50mya yng nghylchfan Pont-y-pŵl. Yn ogystal, mae cysylltiadau ar draws y coridor drwy ddulliau heblaw am gerbydau preifat hefyd wedi'u gwella.

Mae'r astudiaeth bellach wedi'i chynnwys o fewn y [Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth](#), er bydd y cynllun yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chynlluniau eraill tebyg ledled Cymru a bydd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Yn gywir,

Ken Skates AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 37
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.3

P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susan Jane Jones Davies ôl casglu 12,075 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Galwn ar Lywodraeth Cymru i dyfu gwariant ar sefydliadau sy'n diogelu treftadaeth a hanes Cymru – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol – ac nid torri'r cyllid o 10.5 – 22.3%

Mae'r sefydliadau yma yn gwarchod gwaddol hanes a diwylliant ein cenedl, yn casglu, yn rhoi ar gadw, ac yn ei gyflwyno i bawb sy'n byw yng Nghymru. Maent hefyd yn gosod ffenest i'r byd o'n hanes unigryw.

Gwybodaeth Ychwanegol:

O ystyried bod buddsoddiad yn y sector o £1 yn dod â thwf o £5 i'r economi, nid yw'r arbedion o 0.02% i'r cyllideb cenedlaethol yn gwneud synnwyr.

Gyda thoriadau llym i gyllidebau ysgolion, a chymdeithas yng Nghymru yn wynebu heriau tlodi a diffygion mewn darpariaeth iechyd a gofal, mae cyn bwysiced ag erioed dal gafael ar ganolfannau sy'n cynnal a thyfu ein gwlad a'n cymunedau, gan ganiatau i'r cenedlaethau a ddaw adeiladu ar seiliau cadarn llwyddiannau'r gorffennol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Diolch i chi am ystyried fy neiseb. Wrth ystyried y sefyllfa argyfyngus sydd wedi datblygu yn ein sefydliadau diwylliannol, rwy'n awyddus i weld dadl am gyllid teg i'r sefydliadau hyn yn y Senedd. Credaf y byddai'n help mawr iddynt pe tasai modd i chi alw ar y Senedd i gynnal dadl, ac hynny ar frys. Yn ddelfrydol, hoffwn i weld y ddadl yn digwydd cyn y gyllideb atodol am fod cyfle yno am arian pontio; er hynny, y mater pwysicaf yw cynyddu'r cyllid refeniw sydd ar gael i'r sefydliadau hyn i gefnogi swyddi a gwasanaethau - hynny yw, y grant craidd. Felly byddai'n ddefnyddiol i'r ddadl digwydd mewn da bryd ar gyfer dechrau'r trafodaethau ar gyfer cyllideb 2025-26. Hoffwn alw arnoch i gyfleu hyn wrth y Senedd ac i roi cyfle i'r barn clir gan lawer o bobl Cymru - a glywyd trwy'r ddeiseb, yn y cyfryngau ac mewn rali a digwyddiadau - gael ystyriaeth teilwng ar lawr ein Senedd.

Daeth i'm sylw trwy law'r undebau bod canlyniadau colli staff o dan y Cynlluniau Ymadawiad Gwirfoddol eisoes wedi cael effaith mawr ar y sefydliadau hyn. Manylaf ymhellach islaw.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cadw dros 7 miliwn o lyfrau gan gynnwys gweithiau pwysig am Gymru / yn y Gymraeg ac ieithoedd Celtaidd, llawer iawn o archifau sy'n manylu ar bobl enwog yn hanes Cymru ond hefyd bywydau bob dydd pobl gan fynd yn ôl at yr oesoedd canol, yn ogystal â llawer o fapiau, lluniau a ffilmiau. Mae pobl yn dod o leoliadau ar draws Cymru ond hefyd o bedwar ban y byd er mwyn ymchwilio i'r gorffennol a dysgu gwersi i'r dyfodol. Yma mae tystiolaeth o gymaint o'n hanes, y da a'r drwg. Yn ôl adolygiad teilwredig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Llyfrgell wedi cael ei dan-ariannu ers blynnyddoedd.

Yn y gyllideb ddiwethaf, cafodd y Llyfrgell toriad o 10.5% o'i gyllid craidd, sef £1.3m, ar ben diffyg ariannol o tua £1.4m. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ariannu ymadawiadau gwirfoddol yn hytrach nag ariannu'r sefydliad, mae 24 aelod o staff wedi mynd neu yn mynd, sef dros 10% o'r gweithlu. Cyflawnwyd y cynllun ymadael yn wirfoddol yn mor gyflym fel bod cynllunio olyniaeth yn anodd os nad amhosibl. Mae'r 24 felly wedi cymryd eu sgiliau, arbenigedd a phrofiad gyda nhw wrth adael. Yn barod, mae nifer o feysydd wedi dioddef:

Mae'r adran Cadwraeth wedi colli tua hanner o'u staff. Er enghraifft, mae'r nifer o staff sydd yn gweithio ar lanhau a thrwsio casgliadau sy'n dod mewn i'r Llyfrgell wedi mynd o 1.2 FEQ i 0.2FEQ yn dilyn y cynllun ymadael yn wirfoddol. Mae hyn yn drychinebus o ran cyflwr deunyddiau ond mae fe hefyd yn cael sgil-ffeithiau ar waith gweddill y Llyfrgell. Enghraifft arall yw colli'r 2 aelod o staff oedd yn defnyddio'r peiriant drud sy'n creu bocsys cadwraethol. Mae hyn yn cael effaith ar storio casgliadau am fod bocsys o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y casgliadau yn goroesi am y canrifoedd i ddod. Eto, mae fe hefyd yn effeithio ar allu gweddill y staff i wneud eu gwaith.

Yn ogystal â meysydd gwaith traddodiadol, mae effeithiau hefyd ar seilwaith digidol y Llyfrgell. Mae nifer o blatfformau ni ellid eu cynnal mwyach oherwydd diffyg adnoddau. Mae'r ochr TGCh wedi bod o dan bwysau ers amser ac mae niferoedd staff wedi lleihau yn sylweddol. Ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth i'r amlwg nid oedd yr adnoddau staff ar gael i gynnal gwefan Cymru 1914 mwyach - archif digidol oedd yn hynod bwysig i ysgolion wrth astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf a Chymru. Nawr, mae'r Llyfrgell yn wynebu colli rhyngwyneb prynu copiau o ewyllysiau - rhywbeth sydd hefyd yn creu incwm - am fod y systemau sy'n cynnal y gwasanaeth yn cyrraedd diwedd eu hoes a nag oes adnoddau i ail-greu'r systemau hyn. Mae un o adrannau TGCh yn mynd lawr i un person ac mae pryderon na fydd capasiti nag arbennigedd i dderbyn deunyddiau digidol cyn hir. Wrth ystyried yr ymosodiad seibr a ddifethodd systemau Llyfrgell Prydain gan atal darllenwyr rhag mynediad at y rhan fwyaf o gasgliadau, mae wir angen mwy o fuddsoddiad.

Mae hefyd effeithiau andwyol ar wasanaethau i'r darllenwyr, er enghraifft am fod y nifer o staff sy'n gweithio yn y tîm reprograffeg wedi haneru, gydag oriau'r swyddfa reprograffeg yn lleihau wrth reswm. Mae'r tîm sgrîn a sain hefyd yn colli eu gwasanaeth ymholiadau.

Mae prinder staff hefyd yn effeithio ar weithgareddau llai gweladwy ond sydd dal yn bwysig. Doedd dim gwirio stoc wedi bod ers blynyddoedd tan y cafwyd sylw gan y BBC yn ddiweddar ond dechreuwyd ar y gwaith yn ddiweddar. Oherwydd prinder staff, mae'r gwaith wedi arafu yn sylweddol. Mae gwaith fel hyn yn bwysig o ran cynnal y casgliadau a sicrhau bod stoc y Llyfrgell yn ddiogel ac ar gael i ddarllenwyr.

Yn gyffredinol ar draws y Llyfrgell, mae lleihau niferoedd staff, gan waredu profiad ac arbennigedd cyn bod unrhyw siawns i redeg cynllun olyniaeth, yn arwain at fwy o waith yn mynd at y staff sy'n weddill a thasgau pwysig yn peidio â chael eu cyflawni. Bydd effaith hir-dymor ar y casgliadau, ar gof y genedl, a bywydau pobl Cymru heb fod hyn yn newid.

Yr unig ffordd i lenwi bylchau a chryfhau gweithlu a gwasanaethau'r Llyfrgell eto yw cynyddu'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi i'r Llyfrgell fel gall y Llyfrgell llenwi bylchau, cyflogi digon o staff i redeg gwasanaethau ac ail-adeiladu ei gronfa sgiliau.

Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnal arteffactau, adeiladau hanesyddol a deunyddiau eraill ar draws sawl safle ar draws Cymru. Yn dilyn toriad o 10.5% yn eu cyllid craidd gan Lywodraeth, sef tua £3m, ar ben diffyg o tua £1.5m, mae 144 staff wedi / yn mynd ar y cynllun ymadawriad gywirfoddol.

Mae'r Amgueddfa yn dioddef problemau tebyg i'r Llyfrgell mewn sawl maes. Mae'r tîm cadwraethol ym Mharc Cathays yn adrodd eu bod nhw i fod cyflawni tair gwaith mwy fesul person nag o'r blaen;

am nag yw hyn yn bosibl mae rhaid iddynt flaenoriaethu gwaith. Mae hyn yn debygol o arwain at niwed parhaol i wrthrychau pwysig a cholled darnau sy'n adrodd hanes Cymru.

O ran gwasanaethau i'r cyhoedd, mae sawl safle yn adrodd prinder staff yn arwain at ddiffyg staff rheng flaen. Mae mwyafrif o'r adeiladau hanesyddol yn Sain Ffagan ar gau neu ar agor am lai o amser yn rheolaidd oherwydd prinder staff ac mae nifer o fwytai yn yr amgueddfeydd wedi cau. Mae staff sy'n gwneud gwaith curadurol yn aml yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau ar y rheng flaen, gydag effeithiau amlwg i'r gwaith hynod bwysig sy'n digwydd tu ôl i'r llenni.

Mae Big Pit yn arbennig yn dioddef o ddiffyg tywyswyr, gyda llawer llai o bobl yn cael y profiad o fynd i lawr y pwell. Dyna dim ond enghraifft o'r toriadau yn amddifadu pobl Cymru o'r cyfle i ddeall eu hanes.

Mae hefyd bylchau amlwg wedi agor o ran arbenigedd corfforaethol, er enghraifft gyda swyddogion asbestos ac iechyd a diogelwch yn mynd.

Mae PCS yn yr Amgueddfa yn teimlo nag yw holl ganlyniadau'r cynllun ymadael yn wirfoddol wedi dod i'r amlwg eto ond mae'r hyn a glywyd hyd yma yn dangos yn glir bod angen cynyddu'r cyllid craidd er mwyn darparu'r gwasanaeth mae pobl Cymru yn eu haeddu, gofalu'n iawn am gasgliadau ac ail-adeiladu arbenigedd.

Casgliad

Rwy'n gobeithio bod yr uchod yn cynnig manylder i chi o'r hyn sy'n digwydd yn y Llyfrgell a'r Amgueddfa yn sgil y toriadau diweddar. Mae'n glir bod y toriadau yn mynd i, neu eisoes yn, cael effaith andwyol ym maes addysg, yn y gwasanaethau mae nhw'n darparu i bobl Cymru, yn y buddion iechyd meddwl maen nhw'n darparu i'r cyhoedd. Mae'r casgliadau maen nhw'n lletyo hefyd yn dweud gymaint am hanes Cymru a'i pherthynas â'r byd yn ehangach, y da a'r drwg, gyda llawer o wersi y gellid dysgu. Ar adeg pan mae gwledydd eraill fel yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon yn cynyddu eu gwariant ar y sector diwylliant, mae angen i wledyddion Cymru bwysu ar Lywodraeth Cymru i roi cyllid digonol i'n sefydliadau treftadaeth genedlaethol.

Rwy'n erfyn arnoch i anfon neges gryf a chlir at Lywodraeth Cymru bod angen dadl am hyn, ac hynny ar frys

Diolch yn fawr iawn

Susan Jones-Davies

Eitem 4.1

P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Bethan Sayed, ar ôl casglu cyfanswm o 299 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar y Senedd i gynnal ymchwiliad i'r sgandal mesuryddion rhagdalau.

Dros y ddau fis diwethaf, mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg bod miloedd o bobl sydd wedi'u symud i fesuryddion rhagdalau heb y gwiriadau gofynnol o ran a ydynt yn agored i niwed.

Rydym ni yn Climate Cymru ac ymgyrchwyr eraill wedi bod yn datgelu'r sgandal hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Gweler lincs i straeon gan newyddiadurwyr ymgyrchu fel Dean Kirby yn y papur newydd o'r enw i.

- Forced installations of prepayment meters to stop as courts ordered to end issuing warrants (inews.co.uk)
- Prepayment meters must be removed for vulnerable families as compensation is not enough, Grant Schapps told (msn.com)
- i morning briefing: How the prepayment meter scandal was uncovered, and forced change (msn.com)
- Prepayment meters: Grant Schapps gives energy firms until Tuesday to consider compensation (inews.co.uk)
- Prepayment meter investigation – inews.co.uk

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Closing Comments on Warm this Winter petition & debate



End the Forced pre-payment Meter scandal

From David Kilner - Campaign Coordinator - Climate Cymru:

We thank you, the Petitions Committee, for recognising the seriousness of the issue the petition raised (forced pre-payment meters) and utilising your power to investigate not only the serious injustice being metered out on people in Wales and across the UK but the wider systemic issues that have unravelled.

In light of the Senedd debate of the 1st May, triggered by this petition, we were requested to add any closing comments.

We'd like to state clearly that this issue is certainly not closed.

Not for the record levels of fuel poverty and debt that the people of our communities are enduring. Not for the fact that forced pre-payment meters are back on the table. Last winter we interviewed people joining community meals - 'I only *heat one room, and eat one meal.*' Over and over. *'The hearth is the heart of the home and mine is off and I don't know if it will survive.'*

There were 285 recorded excess deaths in Wales in 2022/3 as a result of people living in cold damp homes. This is just the tip of the iceberg.

The record fuel debt and rising extreme debt, alongside some of the highest levels of poverty in a generation will see the same pattern of force pre-payment meters play out, people dying in and because of cold homes.

We urge you to do all in your power to alleviate this.

Hold Energy firms to account:

We urge you to **call the energy firms back to the Senedd**

- **Monitor and scrutinise the implementation of their code of conduct - do not wait for another crisis to unfold.**

As AM Jack Sergeant stated in opening the debate - 'We should not trust the suppliers to mark their own homework.' As a year on despite a temporary pause - forced pre-payment meters are back on the table for 7 energy firms and thousands of households in Wales.

- **Provide the evidence to Ofgem and push to change the code of conduct to reflect the real vulnerabilities of our communities**

There are worrying gaps in the mandatory code of conduct with regards to both the upper age limit of 75 and the defined pre-school age of just 2.

Many of our own social support mechanisms and public health recognise greater health vulnerabilities in the over 65 - the UK winter payment scheme even working towards those born before 1957.

The Institute of Health Equity has undertaken rigorous research in to the impact of cold homes. *Left out in the Cold - The Hidden impact of Cold Homes states* 'Babies in cold homes do not spend their calories on developing lung tissue, neural pathways, and other crucial physiological drivers of health - rather, they spend their calories trying not to die of hypothermia and hypoglycaemia.'

A 2 year old is a baby as is a 3 year old and a 4 year old in a critical time of development. Cold damp homes are the catalyst of sustained, cascading and escalating health issues.

There should be no need to remind you that 100s of thousands of forced pre-payment meters were fitted including in to the homes of some of the most vulnerable long before any parliamentary scrutiny (Senedd or at UK government occurred).

We will refer you to this report of this year -

<https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/left-out-in-the-cold-the-hidden-impact-of-cold-homes>

Energy Efficiency measures & legislation across the Housing sector:

We urge you to escalate and accelerate the **urgent role out of energy efficiency measures and legislation** to housing (addressing both social & private housing) - some of the leakiest and least efficient in Europe.

There are short term actions to create long term solutions to the unfolding health and energy crisis in our homes - improving energy efficiency measures and mandating them at a faster rate is needed. We welcome the activity of the Warm Homes programme but stress that it must go further and faster to meet the scale of the health, debt and energy poverty that is growing.

Energy for All: A social Tariff

We urge you to move forward pressing the UK government with urgency to commit to and enact **a social tariff - ensuring energy is available for all.**

' We need the Energy For All guarantee of essential energy, so no one is ever cut off because they are short of cash" - Jonathan Bead, Policy and Parliamentary worker for Fuel Poverty Action.

Home-grown Community Energy -

We urge you to move swiftly to enable and empower small scale community renewable energy projects and a wider just transition through our own medium and larger scale renewable energy projects - in which communities benefit and are fairly compensated for new infrastructure.

We, the people of Wales can be unburdened of fossil fuel capital, the driver of the energy profiteering, the crushing debt on households, the health implications it enforces on us in

cold homes - through a social tariff, a warmer homes scheme that meets the challenge, local community renewable energy and a transition that takes our fortune back in to our hands.

We urge the Senedd where it does not have the statutory powers to loudly apply pressure on UK government to make the changes it needs so that our communities can be afforded basic health, basic necessities of life - rekindle the hearth of houses and our communities.

David Kilner, Campaign Co-ordinator, Climate Cymru

